OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1408 (Cy. 94)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *4 Ebrill 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) a phob pŵ er arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2001, a deuant i rym ar 9 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Y swm y mae ei angen at anghenion personol

**2.** Y swm y mae'n rhaid i awdurdod lleol ragdybio o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 y bydd ar berson ei angen at anghenion personol y person hwnnw fydd £16.05 yr wythnos.

### Diddymu

**3.** Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000(**3**), drwy hyn wedi'u diddymu.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael diffiniadau o "the Minister" a "prescribed" yn y drefn honno, ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2000/1145.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Dafydd Elis-Thomas*

4 ydd Ebrill 2001

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r swm wythnosol y mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru i ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ar breswylwyr sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ei angen at eu hanghenion personol.

0 9 Ebrill 2001 ymlaen, rhagdybir y bydd ar bob preswylydd o'r fath angen £16.05 yr wythnos at eu hanghenion personol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 (a oedd yn darparu ar gyfer y swm y rhagdybid bod ar breswylwyr ei angen o 10 Ebrill 2000 ymlaen) sy'n cael ei diddymu.